Plaid Cymru
Party of Wales

# MANIFFESTO ETHOLIAD EWROPEAIDD 2019

GWNEWCH I **GYMRU** GYFRIF

www.plaid.cymru

Plaid Cymru
Party of Wales



GWNEWCH I **GYMRU** GYFRIF

# GWNEWCH I **GYMRU** GYFRIF

Bydd pleidlais dros Blaid Cymru yn yr etholiadau Ewropeaidd ar 23 Mai yn bleidlais i Gymru aros yn yr Undeb Ewropeaidd.

Dyw San Steffan ddim yn gweithio i Gymru. Yr etholiad hwn yw ein cyfle i anfon neges i sefydliad y DG na all mo'i anwybyddu: mae eu gweithredoedd ers y refferendwm yn warthus, ac yr ydym yn gwrthod cynlluniau pleidiau'r DG am Brexit peryglus, niweidiol.

Mae ffordd syml allan o'r llanast yma gyda Brexit, sef cymryd ein dyfodol i'n dwylo ein hunain. Plaid Cymru yw'r brif blaid yng Nghymru sydd dros Ewrop, ac y mae pleidlais i ni yn yr etholiad hwn yn bleidlais dros Gymru fel cenedl falch Ewropeaidd.

Tra bod gwleidyddion San Steffan yn ffraeo ymysg ei gilydd, mae Cymru'n cael ei gadael ar ôl. Mae'n bryd newid. Gwnewch i Gymru gyfrif gyda phleidlais dros Blaid Cymru.



Plaid Cymru
Party of Wales

# EIN PUM ADDEWID ALLWEDDOL I WNEUD I **GYMRU** GYFRIF

**1**

**Refferendwm Dewis Terfynol -** sefyll yn unedig yn ein brwydr dros refferendwm Dewis Terfynol ac i Gymru aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, a phledio'r achos dros lais i Gymru yn Ewrop fel aelod yn ei hawl ei hun.

**2**

**Bargen Werdd Newydd -** gwrthweithio newid hinsawdd trwy ddod yn 100% yn hunangynhaliol mewn trydan adnewyddol erbyn 2035 a chyflwyno rhaglen effeithlonrwydd ynni yn y cartref gwerth £3 biliwn.

**3**

**Cynllun Economaidd Trawsnewidiol -** arwain yr alwad am Gronfa Drawsnewid UE pum-mlynedd gwerth £5 biliwn i Gymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, a lledaenu ffyniant, buddsoddi a chyfleoedd i bob rhan o Gymru; o'n dinasoedd a'n trefi, i'n cymoedd a'n cymunedau gwledig ac arfordirol.

**4**

**Rhoi Grym i Bobl Ifanc -** sicrhau bod modd parhau i gyrchu rhaglen gyfnewid addysgol Erasmus+, gweithredu'n llawn y Cynllun Gwarant Ieuenctid a mynediad at gerdyn rheilffordd yr UE.

**5**

**System Fudo Gymreig -** creu Gwasanaeth Cynghori Cymreig ar Fudo i gyflwyno system fudo sy'n gweithio ar gyfer anghenion Cymru. Bydd ein ASE yn arwain yr alwad am bolisi mudo gan yr UE sy'n seiliedig ar gydsafiad.

GWNEWCH I
**GYMRU** GYFRIF

Plaid Cymru
Party of Wales



GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

# GWNEWCH I **GYMRU** GYFRIF

Yn yr etholiad Ewropeaidd hwn yng Nghymru, nid Plaid Cymru yn unig ydym ni ond Plaid Ewrop hefyd. Rydym yn frwd o blaid Aros er mwyn trawsnewid lle a gobeithion Cymru yn y dyfodol yn yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym eisiau aros yn Ewrop fel y gallwn ei newid, nid dim ond i ni ein hunain, ond er mwyn dyfodol Ewrop ei hun. Yng Nghymru, ni yw'r unig blaid sydd â'r gallu i ennill seddi sydd yn ddiamwys o blaid Pleidlais y Bobl. Mae polisi Llafur ar refferendwm – fel ar gymaint o bethau eraill – yn llithrig, yn ddauwynebog ac yn annibynadwy.

Rydym yn gwrthwynebu Brexit am ei fod yn bygwth cydweithredu Ewropeaidd, yn anad dim o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol.

Mae llawer haen i'r argyfwng amgylcheddol: mae'n cynnwys cwymp bioamrywiaeth, llygru ein dyfrffyrdd a'r moroedd, erydu'r pridd, ac effaith twf poblogaeth a defnyddwyr. Mae arnom angen model economaidd hollol wahanol. Mae'r her yn enfawr, a'r unig ffordd i'w hateb yw trwy gydweithio a chydweithredu rhyngwladol, yn ogystal â datganoli grym i'r lefel fwyaf lleol bosib.

Mae hynny'n ganolog i weledigaeth Plaid Cymru o ddyfodol Cymru yn Ewrop. Rydym am annibyniaeth i'n cenedl. Ond rydym eisiau'r annibyniaeth hwnnw fel y gallwn wneud ein cyfraniad i ail-lunio ein byd, yn bennaf oll fel rhan o'r teulu o genhedloedd Ewropeaidd.

Bu'r Undeb Ewropeaidd yn arwain y maes wrth ddod o hyd i ateb byd-eang i newid hinsawdd, yn y broses a gychwynnwyd gan Gynhadledd Rio ym 1993. Canlyniad hynny fu Cytundeb Paris yn 2016, pryd y mabwysiadodd 195 gwlad y fargen gyffredinol fyd-eang gyntaf ar hinsawdd oedd â grym cyfreithiol.

Ond dechrau'n unig oedd hynny. Rhaid mynd ymhellach fyth. Dyna pam fod Plaid Cymru yn sefyll ochr yn ochr â phawb, yn hen ac ifanc, fu'n galw am gydnabod yr argyfwng hinsawdd byd-eang ond hefyd am weithredu o'r newydd ar ffurf Bargen Werdd Newydd.

Dyna pam ein bod, yn yr etholiad Ewropeaidd hwn, yn apelio at bawb o feddylfryd blaengar i'n cefnogi. Mae'r etholiadau Ewropeaidd hyn yn bont y gall pobl Cymru fentro ar ei thraws i achosi'r newid y mae ar Gymru ei angen. Os ydych eisiau dyfodol Ewropeaidd i Gymru yna pleidleisiwch dros Blaid Cymru - yr unig blaid sy'n credu yn ddiamod yn y dyfodol hwnnw.

Os ydym eisiau'r Gymru newydd a ddaw yn sgil gwleidyddiaeth newydd, rhaid i ni bleidleisio drosti. Os yw Cymru'n cyfrif i chi, yna Gwnewch i **Gymru** Gyfrif ar Fai 23.

**Adam Price**
Arweinydd Plaid Cymru

MANIFFESTO ETHOLIAD
EWROPEAIDD
2019

Plaid Cymru
Party of Wales

# TÎM PROFIADOL PLAID CYMRU I WNEUD I **GYMRU** GYFRIF

Mae'r etholiad hwn yn gyfle euraid i wrthod llanast Brexit a achoswyd gan Theresa May a Jeremy Corbyn, a dewis yn hytrach ddyfodol Cymru fel cenedl falch Ewropeaidd.

Mae San Steffan wedi torri, a Chymru'n haeddu gwell. Bydd tîm Plaid Cymru o ymgeiswyr profiadol a gweithgar yn mynnu gwell.


Gweledigaeth sydd gennym ni o Gymru hyderus sy'n edrych tuag allan. Bydd ein tîm yn cydweithredu gyda chenhedloedd eraill Ewrop i ddatblygu Cronfa Drawsnewid, gwrthweithio newid hinsawdd a rhoi blaenoriaeth i ddatblygu polisïau fydd yn rhannu ffyniant yn deg ledled yr UE ac yn creu cyfleoedd i bobl ifanc.

Yn ystod yr etholiad hwn, bydd ein tîm yn siarad â phobl ledled y wlad am ein cenhadaeth i adeiladu'r Gymru Newydd.

## DEWCH I GWRDD Â'R TÎM


JILL **EVANS**


CARMEN **SMITH**


PATRICK **McGUINNESS**


IOAN **BELLIN**

Bu **Jill Evans ASE** yn ASE Plaid Cymru dros Gymru ers 1999. Daw Jill o'r Rhondda, ac y mae'n gyn-gynghorydd sir, ac yn gyn-gadeirydd a llywydd y blaid. Yn Senedd Ewrop yn awr, mae'n Is-lywydd Grŵp Cynghrair Rydd Ewrop.

Mae **Carmen Smith** yn ymgyrchwraig brofiadol o Ynys Môn sydd yn gweithio mewn datblygu rhyngwladol. Fe'i hetholwyd ddwywaith yn Ddirprwy Lywydd UCM Cymru, mae'n weithgar yn ymgyrch Pleidlais y Bobl, ac yn flaenllaw ym mudiad y bobl ifanc, For Our Future's Sake.

Mae **Patrick McGuinness** yn Athro mewn Ffrangeg a Llenyddiaeth Gymharol yng Ngholeg St Anne, Rhydychen. O gefndir Seisnig a Belgaidd, mae wedi byw yng Nghymru ers 2000 ac yng Ngwynedd ers 2006. Mae'n academydd, llenor a bardd o fri.

Mae **Ioan Bellin** yn gyn-ddarlledwr i ITV Cymru a BBC Gogledd Iwerddon. Mae wedi gweithio mewn nifer o swyddi gyda Phlaid Cymru dros y 15 mlynedd diwethaf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae wedi sefyll ddwywaith o'r blaen i Senedd Ewrop ac fel ymgeisydd ym Mhontypridd yn etholiadau San Steffan a Senedd Cymru.

GWNEWCH I **GYMRU** GYFRIF

Plaid Cymru
Party of Wales

# LLWYDDIANNAU'R BLAID YN SENEDD EWROP

GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

**Yn Senedd Ewrop, mae Plaid Cymru yn aelod blaenllaw o grŵp gwleidyddol Cynghrair Rydd Ewrop / y Gwyrddion. Mae gan y grŵp ar hyn o bryd 52 ASE o 18 aelod-wladwriaeth. Mae Jill Evans, ein ASE ers 1999 a'r ymgeisydd arweiniol yn yr etholiad hwn, yn Is-Lywydd Cynghrair Rydd Ewrop. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, gwnaeth y grŵp y canlynol:**

- Annog mabwysiadu deddfwriaeth 'ynni glân i bawb', yn diffinio sut y bydd yr UE a'r aelod-wladwriaethau yn gweithredu Cytundeb Hinsawdd Paris a sicrhau ymrwymiad gan yr UE y daw traean o'r holl ynni o ffynonellau adnewyddol erbyn 2030.
- Yn erbyn gwrthwynebiad y cwmnïau ynni mawr, llwyddo i ymgorffori yng nghyfraith yr hawl i ddinasyddion ddefnyddio'r ynni adnewyddol maent yn ei gynhyrchu eu hunain.
- Llwyddo i roi terfyn ar ddefnyddio olew palmwydd fel biodanwydd mewn trafnidiaeth.
- Cyflwyno strategaethau adnewyddu adeiladau cenedlaethol yn ogystal ag Adeiladau Ynni Agos at Sero fel safon i bob adeilad erbyn 2050 yng nghyfraith yr UE.
- Cychwyn Cronfa Drosiannol Ewropeaidd i ranbarthau neu sectorau economaidd lle mae pobl yn colli eu swyddi, i helpu sectorau i ddatblygu swyddi cynaliadwy at y dyfodol.
- Bod ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn llygredd plastig a barodd i'r Undeb Ewropeaidd ymrwymo i leihau gwastraff plastig a gwahardd amrywiaeth o gynhyrchion plastig un-defnydd.
- Arwain ar ddiwygio ffermio organig, labelu bwyd, gwahardd defnydd cyson o wrthfiotigau mewn porthiant anifeiliaid, a chyflwyno camau i warchod gwenyn.
- Cefnogi camau rheoli tynnach yn erbyn gwyngalchu arian.
- Sicrhau buddsoddi ychwanegol mewn cysylltiadau trenau ar draws ffiniau.
- Brwydro i amddiffyn hawliau unigolion i breifatrwydd, gan roi gwell gwarchodaeth rhag gwyliadwriaeth ar ddinasyddion a defnyddwyr ar-lein ac oddi ar lein.
- Adeiladu cynghrair yn y Senedd yn erbyn y trafodaethau a gynhaliwyd ar y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsiwerydd rhwng UDA a'r UE a fyddai wedi bygwth y GIG, swyddi a diogelwch bwyd a'r amgylchedd.
- Galw am agwedd fwy dyngarol a mwy o gydsafiad gyda ffoaduriaid sy'n ffoi i Ewrop.
- Arwain yr ymgyrch am gydraddoldeb i ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol Ewrop, a'r rhai sydd mewn perygl, a arweiniodd at fwyafrif llethol o ASE yn cefnogi adroddiad Jill Evans ar 'Gydraddoldeb ieithyddol yn yr oes ddigidol'.
- Ymgyrchu dros gadw dinasyddiaeth Ewropeaidd i bobl Cymru petaem yn gadael yr UE.
- Sicrhau y bydd rhaglen Erasmus+ nesaf yn fwy cynhwysol, yn haws ei chyrchu, ac mor agored ag sydd modd i bobl ifanc yng Nghymru, hyd yn oed os byddwn yn gadael yr UE.

Plaid Cymru
Party of Wales

# 1 REFFERENDWM DEWIS TERFYNOL

Mae San Steffan wedi torri. Nid yw ei sefydliad yn poeni am Gymru, ac y mae'n gadael Cymru ar ôl. Dim ond Plaid Cymru all sicrhau dyfodol disglair, Ewropeaidd i Gymru.

Mae Plaid Cymru yn falch o fod yn Ewropeaid Cymreig a wastad wedi rhoi pwys mawr ar dreftadaeth Ewropeaidd ein cenedl.

Bydd aros yn yr UE yn gadael i ni gadw ein hunaniaeth fel Ewropeaid Cymreig ond hefyd yn amddiffyn yr holl fanteision yr ydym yn eu derbyn fel dinasyddion Ewropeaidd.

Mae dinasyddiaeth yr UE yn rhoi'r hawl i ni deithio, byw, astudio a gweithio yn unrhyw le yn yr UE ac amrywiaeth fawr o hawliau eraill dan gyfraith yr UE o ran iechyd, addysg, gwaith a nawdd cymdeithasol.

Bydd aros yn yr UE hefyd yn gwarchod Cymru rhag effaith economaidd sylweddol Brexit.

Yn dilyn refferendwm 2016, gweithiodd Plaid Cymru yn galed i ddeall effeithiau posib Brexit a chychwyn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu polisi cyffredin gyda'r nod o liniaru effeithiau gwaethaf gadael yr UE.

**Yr oedd ein gwaith yn cydnabod y canlynol:**

- **Mae dwy ran o dair o allforion Cymru yn mynd i wledydd yr UE**
- **Mae ein llwyddiant yn denu buddsoddiad o dramor yn seiliedig i raddau helaeth ar fynediad**
- **Mae 200,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar fasnach ddirwystr gydag Ewrop**

O'r herwydd, galwodd Plaid Cymru am yr isod:

- Mynediad llawn a dilestair at y Farchnad Sengl am nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf – gan gynnwys ein cynhyrchion amaethyddol a bwyd allweddol.
- Cymru i aros yn yr Undeb Tollau i ganiatáu masnachu nwyddau yn rhwydd gyda mwy nag 80 o wledydd ledled y byd.

Mae Marchnad Sengl yr UE a'r Undeb Tollau yn bwysig i'n cyflogwyr cynhenid ac i ddenu mewnfuddsoddi a chreu swyddi, a dyma'r lleiaf fyddai ei angen i warchod buddiannau economaidd Cymru. Ar yr un pryd, dywedasom ni ym Mhlaid Cymru y byddai hyn yn waeth nac aros yn yr UE. Er y gallasem drafod sefyllfa lle gallai Cymru aros yn y naill a'r llall, byddai bod y tu allan i'r UE yn golygu na fyddai gennym lais dros benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y ffordd maent yn datblygu.

Yn wir, ers y refferendwm, dioddefodd diwydiannau a swyddi o ganlyniad i Brexit a'r ansicrwydd presennol. Bydd aros yn yr Undeb Ewropeaidd yn ein galluogi i ddiogelu swyddi a bydd mynediad rhwydd at Ewrop yn annog cwmnïau tramor o bwys i fuddsoddi yng Nghymru.

Plaid Cymru
Party of Wales

GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

## CYTUNDEBAU MASNACHU

Yr oedd y syniad y byddai llunio cytundebau masnach newydd unwaith i ni fod allan o'r UE yn hawdd yn un arall o'r addewidion afrealistig a wnaed yn ystod y refferendwm. Rhybuddiodd Plaid Cymru o'r dechrau y byddai Llywodraeth Prydain yn ei chael yn amhosib trosglwyddo'r 40 cytundeb masnach y maent yn elwa arnynt ar hyn o bryd trwy ei haelodaeth o'r UE. Hyd yma, llwyddodd y DG i ddod i 9 cytundeb yn unig, allan o 40.

Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae Prydain yn wladwriaeth ganolig ei maint sy'n ei chael yn hynod anodd llunio cysylltiadau masnach y tu allan i'r UE. Yr ydym yn gweld chwalu'r drefn economaidd 'fyd-eang' ryddfrydol wedi'r rhyfel ac ymddangosiad blociau'r diffyndollwyr, yn enwedig UDA a China. Y gwir yw y byddai Prydain, gyda phoblogaeth o 67 miliwn, yn ei chael yn anodd iawn cystadlu ag UDA gyda'i phoblogaeth o 328 miliwn, heb sôn am China gyda'i phoblogaeth o 1,420 miliwn. Fel y dywedasom o'r cychwyn, mae dyfodol Cymru mewn lle gwell yn yr UE, gyda'i phoblogaeth o fwy na 500 miliwn.

Yn Senedd Ewrop, byddwn yn parhau i weithio dros bolisi masnach yr UE sy'n rhoi ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n pobl yn gyntaf. Mae Plaid Cymru yn rhan o'r mudiad masnach deg Ewropeaidd sydd â'r nod o roi hawliau dynol a chymdeithasol a'r amgylchedd o flaen buddiannau'r busnesau mawr. Y tu allan i'r UE, byddai Cymru yn fwy agored o lawer i gytundebau masnach niweidiol. Rhaid i bob cytundeb masnachol fod yn gydnaws â thargedau Cytundeb Paris trwy ddarpariaethau sy'n rhwymo yn gyfreithiol.

## AMAETHYDDIAETH

Mae gan Brexit oblygiadau difrifol i ffermwyr Cymru. Yng Nghymru, ar gyfartaledd daw 80% o incwm ffermwr o daliadau uniongyrchol a dderbynnir trwy Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn bwriadu dilyn Llywodraeth Geidwadol y DG trwy ddirwyn taliadau uniongyrchol i ffermwyr i ben, a sefydlu system reoli tir amgylcheddol newydd os byddwn yn gadael yr UE. Yn y cyfamser, bydd ffermwyr yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a 27 gwlad arall yr UE yn cadw taliadau uniongyrchol, gan greu maes chwarae anwastad i ffermwyr Cymru a thanseilio hyfywedd eu busnesau.

Yn y cyfamser, petaem yn gadael yr UE heb gytundeb, gallai 20,000 o ffermwyr mynydd yn ein hardaloedd gwledig wynebu tariffau drudfawr adeg gwerthu eu cig oen i'w prif farchnad – gweddill yr UE.

Mae'n hanfodol ein bod yn amddiffyn y fferm deuluol Gymreig trwy aros yn yr UE – hanfodol i'n cymunedau, ein diwylliant a'n hamgylchedd.

## GWEITHGYNHYRCHU

Mae ansicrwydd ynghylch Brexit eisoes yn cael effaith ar weithgynhyrchu. Cyhoeddwyd y bydd bron i 1,000 o swyddi'n mynd yn Ford ym Mhenybont-ar-Ogwr a 220 arall yn Schaeffler a 95 yng ngwaith cydrannau ceir Calsonic Kansei yn Llanelli.

Bu dirywiad mawr mewn mewnfuddsoddi ers refferendwm 2016, gyda Chymru ar waelod y gynghrair. Cwympodd y prosiectau newydd ddaeth i mewn ledled y DG o 16.5%, ond yng Nghymru yr oedd yn 46%. Mae Nissan yn rhoi'r gorau i'w cynlluniau i gynhyrchu un o'u cerbydau mwyaf blaengar yn Sunderland. Mae'r cwmnïau electronig mawr Sony a Panasonic yn symud eu pencadlys o Lundain i Amsterdam ac y mae Honda yn cau ffatri yn Swindon, a fydd yn effeithio ar hyd at ddwsin o brif gyflenwyr yn niwydiant ceir Cymru.

Ers refferendwm Brexit, mae twf a arweiniwyd gan fuddsoddi wedi dymchwel. Mae cwmnïau Cymreig allweddol megis FSG Tool & Die, o Lantrisant, yn atal buddosddi oherwydd ansicrwydd Brexit. Yn y cyfamser, mae Airbus, cyflogwr o bwys yng Nghymru sydd yn cyflogi 6,000 o bobl ym Mrychdyn a 500 arall yng Nghasnewydd, wedi cyhoeddi y bydd Brexit yn bygwth penderfyniadau am fuddsoddi yn y dyfodol a'r gobaith am swyddi.

Bydd parhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn annog mewnfuddsoddi ac yn hyrwyddo twf a arweinir gan fuddsoddi.

***Mae'r dystiolaeth yn glir – byddai Brexit yn niweidiol iawn i gymunedau Cymru. Dyna pam ein bod wedi ymgyrchu o'r cychwyn cyntaf dros refferendwm Dewis Terfynol.***

***Bydd ein refferendwm Dewis Terfynol yn rhoi cyfle i bobl Cymru ddewis rhwng unrhyw fargen ac aros yn yr UE.***

# 2 BARGEN WERDD NEWYDD

Mae Plaid Cymru yn deall mai newid hinsawdd yw'r her sy'n diffinio ein hamseroedd. Mae argyfwng yr hinsawdd, dinistrio natur a gor-ddefnyddio adnoddau yn bygwth seiliau ein lles a'n cyfoeth - hyd yn oed ein diogelwch. Gyda bioamrywiaeth ar drai, llygredd yn yr aer ac argyfwng hinsawdd sy'n dyfnhau, nawr yw'r amser i weithredu. Nid yw hwn yn fater y gall Cymru ymdrin ag ef ar ei phen ei hun, a dyna pam y mae'n rhaid i ni weithio gydag eraill yn yr UE a chyda sefydliadau rhyngwladol eraill i ddod i gytundeb ac ymrwymo i weithredu ar leihau newid hinsawdd a hyrwyddo datgarboneiddio.

Rhaid i Ewrop arwain y ffordd i weithredu ar yr hinsawdd, a rhoi Bargen Werdd Newydd ar waith i gyrraedd ein nod ym maes hinsawdd. Nod allweddol y Fargen Werdd Newydd yw trosi i fod yn 100% hunangynhaliol mewn trydan adnewyddol erbyn 2035. Mae buddsoddi mewn ynni adnewyddol yn gyfle hanesyddol i ni atal dinistr ein planed, gwella ansawdd ein bywydau a hyrwyddo'r economi.

Bydd ein polisi ynni yn anelu at sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n gynaliadwy, mynd i'r afael â llygredd, datblygu swyddi yn yr economi ôl-garbon a'n gwneud yn fwy annibynnol mewn ynni.

Os yw gweithredu ar yr hinsawdd am fod yn effeithiol, rhaid ei ymgorffori mewn cyfraith. Byddwn yn ymgyrchu dros gyfraith hinsawdd Ewropeaidd, gyda chyllidebau carbon gorfodol yn gostwng allyriadau o 55% o leiaf erbyn 2030 ac adeiladu economi allyriadau net-sero. Byddwn yn ceisio gwaharddiad llwyr ar ffracio a gweithiau glo brig newydd.

Gall gweithredu camau pendant ar yr amgylchedd wella bywydau miliynau o bobl. Mae miloedd yn marw bob blwyddyn o fân ronynnau a llygrynnau aer eraill. Amcangyfrifir bod llygredd aer yn cyfrannu at 2,000 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru. I warchod yr aer a anadlwn a'r dŵr a yfwn, mae angen i ni dorri i lawr ar lygredd ar frys.

Rhaid i'r UE hefyd fynd i'r afael â phroblem gwastraff plastig trwy wahardd plastigau na ellir eu hailgylchu, datblygu dewisiadau eraill cynaliadwy a chynyddu targedau ailgylchu.

Rydym eisiau i Gymru chwarae ein rhan yn y byd mewn trosiant cyfiawn i gymdeithasau cynaliadwy, a bydd llywodraeth Plaid Cymru yn rhoi blaenoriaeth i hyn. Y cam cyntaf yw sicrhau datganoli'r holl gyfrifoldeb dros ein hadnoddau naturiol fel bod y grym i weithredu yn nwylo pobl Cymru, trwy ein Cynulliad Cenedlaethol a etholwyd yn ddemocrataidd.

I ategu ein gwaith yn Senedd Ewrop, bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn gweithredu trwy sicrhau ein bod yn dod yn hunangynhaliol mewn trydan adnewyddol. Fe wnawn hyn trwy fuddsoddi mewn caffael a datblygu prosiectau cynhyrchu a storio ar raddfa fawr a chefnogi mentrau ynni cymunedol. Bydd Plaid Cymru yn comisiynu rhestr eiddo genedlaethol o botensial ynni gwyrdd yng Nghymru - “Atlas Ynni i Gymru” - a cheisio defnyddio arian Banc Buddsoddi Ewrop ar gyfer prosiectau gwyrdd ac adnewyddol.

Mae biliau trydan yng Nghymru ymysg yr uchaf yn y DG. Mae Plaid Cymru eisiau codi pobl allan o dlodi tanwydd gyda rhaglen effeithlonrwydd ynni'r cartref gwerth £3 biliwn a thrwy sefydlu cwmni ynni cenedlaethol, Ynni Cymru, i symud at rwydweithiau datganoledig a dosranedig ac yn defnyddio'r elw o adnoddau Cymru i dorri cost ynni i ddefnyddwyr yng Nghymru. Bydd ein ASE yn pwyso am weithredu cadarnach yn yr UE ar effeithlonrwydd ynni, gan adeiladu ar y targedau a osodwyd allan yn y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni.

**Sgoriodd y Rhwydwaith Gweithredu Hinsawdd Ewropeaidd y pleidiau ar y camau maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn Senedd Ewrop. Sgoriodd Plaid Cymru 96%, y sgôr uchaf.**

# CYNLLUN ECONOMAIDD TRAWSNEWIDIOL 3

GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

Mae Cymru wedi elwa'n sylweddol o'n haelodaeth o'r UE, yn enwedig o'r £680 miliwn y flwyddyn yr ydym yn dderbyn ar hyn o bryd. Nid yn unig y bu'r cyllid hwn yn hynod bwysig i Gymru o ran sbarduno twf economaidd a swyddi, ond y mae hefyd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddenu adnoddau ychwanegol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat.

Bu cyllid yr UE yn hollbwysig i ddatblygu economaidd rhanbarthol ac amaeth. Hefyd, symbylwyd buddsoddiadau sylweddol yng Nghymru gan nifer o raglenni llai'r UE megis Horizon 2020, Erasmus+, Ewrop Greadigol a Rhaglen Interreg Cymru-Iwerddon.

Bu'r cyllid hwn yn ffynhonnell allweddol o gefnogaeth i Gymru yn y blynyddoedd pan fo agenda llymder San Steffan a hunan-fodlonrwydd Llywodraeth Lafur Cymru wedi arwain at ddisgwyliad einioes yng Nghymru yn cwympo yn gynt nac yn unman arall yn Ewrop. Hefyd, mae bron i draean o blant Cymru yn byw mewn tlodi cymharol – gan ddwyn plentyndod go-iawn oddi wrth ein pobl ifanc a chael effaith ar eu cyfleoedd mewn bywyd cyn iddynt hyd yn oed gychwyn.

Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau na fydd Cymru yn colli ein cyllid Ewropeaidd a pha mor sydyn y mae'n rhaid i ni weithredu.

Ym mis Gorffennaf 2015 lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop y Gronfa Ewropeaidd dros Fuddsoddi Strategol. Y nod oedd datgloi buddsoddiad ychwanegol i helpu Ewrop oresgyn effaith yr argyfwng ariannol. Mae wedi cyllido buddsoddiadau strategol mewn meysydd allweddol megis seilwaith, addysg, ynni adnewyddol, tai cymdeithasol, ysbytai ac effeithlonrwydd ynni yn ogystal â chefnogi BBaCh.

Pan ddaw'r Gronfa dros Fuddsoddi Strategol i ben yn 2020, bydd ASE Plaid Cymru yn arwain yr alwad am greu Cronfa Drawsnewid i adfywio ein cymunedau tlotach, cefnogi diwydiant a mynd i'r afael â chyflogau isel. Dylai hyn barhau i fod yn ganolbwynt strategaeth economaidd a chymdeithasol yr UE. Byddai'n rhoi ystyr i'r cydsafiad a fynegir trwy egwyddor cydlynu economaidd a chymdeithasol sydd wrth graidd prosiect yr UE.

Bydd ein ASE yn galw ar i Gymru elwa o £5 biliwn dros bum mlynedd o'r Gronfa Drawsnewid, fydd yn ein galluogi i ledaenu ffyniant, buddosddi a chyfleoedd i bob rhan o Gymru; o'n dinasoedd a'n trefi, i'n cymoedd a'n cymunedau gwledig ac arfordirol.

Bydd aros yn yr UE hefyd yn gwarantu parhad mynediad i ni at farchnad sengl yr UE, gan gefnogi'r economi a masnach ryngwladol. Mae economi Cymru wedi asio'n agos iawn â Marchnad Sengl yr UE ac y mae wedi elwa'n sylweddol o gymryd rhan ynddi. Aiff rhyw ddwy ran o dair o allforion Cymru i wledydd yr UE ac y mae llwyddiant Cymru yn denu buddsoddiad uniongyrchol o dramor dros lawer degawd wedi ei yrru i raddau helaeth gan fynediad at farchnad yr UE o dros 500 miliwn o gwsmeriaid.

Bydd aros yn yr UE a'r Farchnad Sengl yn atal y dirywiad sydyn mewn buddsoddi a swyddi fyddai'n deillio o gwymp buan y sail y mae Cymru a gweddill y DG yn masnachu arno gyda'n marchnadoedd Ewropeaidd allweddol. Bydd hyn yn cynnal sefydlogrwydd economaidd sydd yn hollbwysig o gofio y gall Cymru fod yn fwy agored i ergydion economaidd na rhai rhannau eraill o'r DG oherwydd ffactorau megis incwm aelwydydd cymharol isel a mwy o ddibyniaeth ar weithgynhyrchu.

Bydd cyfiawnder ym maes trethi hefyd yn flaenoriaeth i'n ASE. Rhaid i bawb dalu eu cyfran deg o drethi oherwydd bod osgoi a gwrthod talu trethi gan gorfforaethau yn tanseilio democratiaeth. Mae ein cymdeithas yn dod yn gynyddol ranedig gyda threthiant annheg yn cyfrannu at anghydraddoldeb. Buom yn brwydro'n galed yn Senedd Ewrop am fwy o gyfiawnder ym maes trethi, a byddwn yn dal i weithio gyda phleidiau eraill yn yr UE i ddatblygu systemau treth nad ydynt yn parhau i roi breintiau i gorfforaethau amlwladol ac unigolion cyfoethog. Byddwn yn parhau i geisio dileu hafanau treth, osgoi a gwrthod talu trethi, a gwyngalchu arian. Nid yw'n dderbyniol fod nifer o gorfforaethau amlwladol yn ogystal â llwyfannau rhyngrwyd mawr yn talu nemor ddim trethi. Mae maint yr UE yn golygu y gall wynebu'r corfforaethau amlwladol mwyaf; rhywbeth y byddai'n anodd iawn i'r DG wneud ar ei phen ei hun.

Plaid Cymru
Party of Wales

# 4 RHOI GRYM I BOBL IFANC

Flynyddoedd wedi'r argyfwng ariannol, mae Ewropeaid ifanc yn dal i wynebu sawl her. Mae llawer yn teimlo pryder am y dyfodol, gyda phob cyfiawnhad, wrth fod yn dyst i ddiffyg gweithredu gan wleidyddion sydd o blaid y status quo.

Fel cenedl, mae cyfrifoldeb arnom i adeiladu cenedl o gyfle i genedlaethau'r dyfodol. Dylai pobl ifanc fod ar flaen y gad wrth lunio eu dyfodol a chael y grym i fod yn arweinwyr y dyfodol.

Byddwn yn gweithio gyda phobl ifanc i lunio cymdeithasau lle gallant gael mynediad llawn at warchodaeth a hawliau cymdeithasol, megis tai, addysg a chyfranogi gwleidyddol. Byddwn yn hyrwyddo polisïau i fynd i'r afael â diweithdra ieuenctid, dylifiad dawn, a thlodi.

Byddwn yn galw ar i bobl ifanc allu cyrchu Cerdyn Rheilffordd yr UE, fydd yn eu galluogi i deithio am ddim ledled yr UE, fydd yn brofiad fydd yn eu cyfoethogi yn ddiwylliannol.

Bydd Plaid Cymru yn pwyso am weithredu'n llawn y Cynllun Gwarant Ieuenctid, gan sicrhau y gall pob person ifanc yng Nghymru dan 25 oed fynd at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu waith.

Yn Senedd Ewrop, bydd Plaid Cymru yn hyrwyddo mentrau sydd â'r nod o gryfhau economïau lleol a rhanbarthol a chreu swyddi sefydlog, diogel a chynaliadwy. Mae sefyllfa fregus cyflogaeth ieuenctid, gan gynnwys swyddi fel interniaid di-dâl a swyddi dros dro, yn mynnu bod angen gweithredu yn syth i warchod hawliau llafur ac incwm parchus i bobl o bob oed. Chwaraeodd Jill Evans ASE ran bwysig yn adolygu'r rheoliad Europass- y fenter Ewropeaidd i ddogfennu sgiliau, cymwysterau a phrofiad proffesiynol - gan ei gwneud yn haws i bobl ifanc o Gymru ymgeisio am swyddi yn rhannau eraill yr UE.

Bu gan Jill ran allweddol hefyd yn yr adroddiad seneddol ar 'Agenda sgiliau newydd i Ewrop', sydd yn galw am agwedd holistaidd at ddatblygu addysg a sgiliau, gan ganolbwyntio nid yn unig ar sgiliau fydd yn helpu'r economi, ond rhai fydd o les i gymdeithas yn gyffredinol.

Mae mynediad at addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar bob lefel ac i bawb yn hanfodol os ydym am sicrhau y gall pob dinesydd gyrraedd eu llawn botensial. Bydd Plaid Cymru yn ymdrechu i sicrhau y bydd modd parhau i gyrchu nifer o raglenni cyfnewid addysgol a diwylliannol, gan gynnwys Erasmus+ sydd wedi rhoi cyfleoedd am gysylltiadau rhwng unigolion, rhanbarthau a gwledydd, a chreu cyfleoedd diwylliannol a busnes amrywiol. Yn 2016 yn unig, derbyniodd 2235 o fyfyrwyr o Gymru grantiau Erasmus+ i astudio dramor, a derbyniodd Cymru dros £26 miliwn ar gyfer cynlluniau addysgol a diwylliannol gan Erasmus dros y 4 blynedd diwethaf. Dylai pob person ifanc gael cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen gyfnewid, waeth beth fo'u cefndir ariannol neu yrfa addysgol.

Er mwyn gwella'r manteision fydd ar gael i bobl ifanc trwy barhau i fod yn aelodau o'r UE, yng Nghymru, bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau ein bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ffynnu. Byddwn yn creu rhwydwaith newydd o Golegau Addysg Alwedigaethol Cenedlaethol arbenigol, ar gyfer addysg i rai 14+ ac wedi oedran addysg orfodol.

Byddwn yn gwrthweithio'r dylifiad dawn enfawr a niweidiol rydym yn wynebu, oherwydd bod llawer o'n myfyrwyr disgleiriaf yn mynd dros Glawdd Offa i astudio a byw yn Lloegr. Byddwn yn creu cymhelliad i'r myfyrwyr hynny sy'n aros neu'n dychwelyd i fyw a gweithio yng Nghymru wedi iddynt raddio, gan helpu i gadw ein pobl ifanc ddisgleiriaf a chryfhau ein heconomi. Bydd aros yn yr UE yn llesol i'n myfyrwyr a'n prifysgolion trwy allu mynd at gyllid ymchwil, sy'n hanfodol bwysig. Yn 2015/16 yn unig, derbyniodd prifysgolion Cymru £25 miliwn mewn cyllid ymchwil gan yr UE.

Er mwyn sicrhau nad ydym yn amddifadu cenhedlaeth gyfan o'r disgwyliad rhesymol o gael cartref parchus, rhaid i ni gael cryn dipyn mwy o dai fforddiadwy a rheoli prisiau rhenti. Mewn llywodraeth, fe fyddwn yn gweithredu cyfyngiadau ar godiadau rhent mewn tenantiaethau ac yn cyflenwi mwy o dai fforddiadwy trwy gyfuniad o ddwyn eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, a datblygiadau newydd o dai cymysg yn y sectorau cymdeithasol a phreifat.

Plaid Cymru
Party of Wales

# SYSTEM FUDO GYMREIG 5

GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

Mae mudwyr yn gwneud cyfraniad pwysig a gwerthfawr i fywyd Cymru, yn economaidd a diwylliannol. Mae mudo yn bwysig i lawer o'n sectorau allweddol. Er enghraifft, mae mudwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i'n GIG. Derbyniodd 30% o'n meddygon eu hyfforddiant dramor, gyda 6% yn cael eu hyfforddi yng ngwledydd yr UE. Aros yn yr UE yw'r ffordd orau o amddiffyn hawl dinasyddion yr UE i weithio yma.

Mae'r Llywodraeth hon yn San Steffan, fodd bynnag, yn cynnig polisïau mewnfudo afresymol sy'n amhosib eu gweithredu, ac a fydd yn niweidio economi Cymru. Byddwn yn parhau i alw am bolisi mewnfudo rhesymegol sy'n gweithio i Gymru, lle gall myfyrwyr a'r sawl sy'n creu swyddi ddod i mewn, ond lle na fydd cyflogau'n cael eu tanseilio.

Mewn llywodraeth, bydd Plaid Cymru yn creu Gwasanaeth Cynghori Cymreig ar Fudo fel y bydd gennym system fydd yn addas i anghenion Cymru. Mae angen fisas penodol i Gymru er mwyn cau bylchau sgiliau ac amddiffyn ein gwasanaeth iechyd rhag prinder staff.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn ceisio datganoli polisi mudo, fel y gall Cymru osod ei chwotas o fudwyr ei hun yn ôl ei hanghenion ei hun, gyda mwy o hyblygrwydd, er enghraifft, wrth brosesu fisas entrepreneuriaid.

Lle gwelir prinder sgiliau, dylem fod yn mynd ati i recriwtio ar draws yr UE. Hefyd, rhaid cymryd myfyrwyr rhyngwladol allan o dargedau mudo net.

Bydd aros yn yr UE yn galluogi ein myfyrwyr a'n hymchwilwyr i astudio yn unrhyw le ar draws Ewrop, a bydd hyn yn llesol i Gymru a'r DG gyfan.

Mae'n hollbwysig trin mudwyr oll gydag urddas a pharchu eu hawliau dynol sylfaenol. Rydym eisiau amddiffyn hawliau gweithwyr mudol a gwrthweithio pob ffurf ar gam-fanteisio ar eu llafur, a llafur gorfodol yn Ewrop.

Mae Plaid Cymru yn gyson wedi galw am warchodaeth gyfreithiol i hawliau holl ddinasyddion yr UE yn y DG a dinasyddion y DG yn yr UE, waeth beth fo canlyniad y trafodaethau. Fe wnaethom gynnig parhad dinasyddiaeth neu ddinasyddiaeth gysylltiol o'r UE i bobl yng Nghymru petaem yn gadael yr UE, gan gyflwyno dull cyfreithiol o wneud hyn.

Fel gwledydd eraill yr UE, rhaid i ni ysgwyddo ein cyfrifoldeb a rhoi cymorth a chefnogaeth i'r sawl sy'n ffoi rhag rhyfeloedd ac erledigaeth. Rhaid i ni gymryd agwedd fwy dyngarol a sefyll ochr yn ochr â ffoaduriaid, gan gynnwys y rhai sy'n croesi Môr y Canoldir dan amgylchiadau peryglus. Bydd ein ASE yn arwain yr alwad am bolisi mudo gan yr UE sydd yn seiliedig ar gydsafiad, sy'n golygu symud tuag at system o fudo ar sail dyrannu ceiswyr lloches yn deg ar draws yr holl aelod-wladwriaethau. Yng Nghymru, mae Plaid Cymru eisiau i Gymru fod yn wir genedl noddfa i ffoaduriaid sy'n ffoi rhag rhyfel a gorthrwm, a bydd yn helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymhathu i'r gymdeithas Gymreig.

## BWYD, AMAETHYDDIAETH A PHYSGOTA

Ffermio yw asgwrn cefn llawer cymuned wledig ledled Cymru ac y mae amaethyddiaeth yn sector hollbwysig o ran economi ehangach Cymru. Ar hyn o bryd, ar gyfartaledd daw 80% o incwm ffermwr o'r taliadau uniongyrchol a dderbyniant trwy Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi sefydlogrwydd a diogelwch i ffermwyr ac y maent yn hanfodol i sicrhau hyfywedd ffermydd Cymru a'r economi wledig ehangach.

Bwriada Llywodraeth Lafur Cymru ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben os byddwn yn gadael yr UE, fyddai'n cael effaith andwyol ar yr economi wledig a gwead cymunedau gwledig. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cadw taliadau uniongyrchol. Gallwn hefyd warchod y cyllid hwn a ffermwyr Cymru trwy aros yn yr UE.

Mae sector bwyd a diod Cymru yn hanfodol i ffyniant ac iechyd cymunedau ledled Cymru. Mae'r gadwyn gyflenwi bwyd yn werth £6 biliwn i economi Cymru, ac y mae'r diwydiant bwyd a diod yn cyflogi oddeutu 240,000 o bobl. Byddwn yn ceisio creu marchnad fwyd ddomestig sydd yn cynhyrchu bwyd lleol da yn ôl y safonau uchaf o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Yr ydym yn cefnogi Cymru GMO-rhydd a pharhau â'r moratoriwm ar gnydau GM yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae sector pysgod a physgod cregyn Cymru yn werth £25 miliwn i Gymru ac y mae'n allforio 90% o'i gynnyrch, llawer ohono i'r UE. Pysgod cregyn a ddelir yn bennaf, gan eu hallforio'n fyw i'r cyfandir neu ymhellach trwy gytundebau masnach yr UE. Mae hyn yn gwneud bywoliaeth pysgotwyr yn agored i niwed gan unrhyw rwystr ar gludo eu cynnyrch os cânt eu dal i fyny mewn porthladdoedd, gan y gall y cynnyrch ddirywio a cholli eu gwerth. Byddai unrhyw rwystrau tariff yn cael effaith enfawr ar hyfywedd.

Mae'r fasnach ddiwnïad sydd yn un o fanteision aelodaeth o'r UE felly yn hanfodol. Bydd aros yn yr UE yn helpu i amddiffyn dyfodol ein teuluoedd pysgota gweithgar. Mewn llywodraeth, bydd Plaid Cymru hefyd yn cynnal y diwydiant trwy ddatblygu Menter Harbyrau Bychain i gynyddu hyfywedd tymor-hir y sector pysgodfeydd.

## LLES ANIFEILIAID

Mae lles anifeiliaid yn bwnc pwysig yn yr UE a bydd Plaid Cymru yn galw am Gomisiynydd Ewropeaidd i ysgwyddo cyfrifoldeb penodol dros faterion lles anifeiliaid. Byddai hyn yn anfon neges gref fod yr UE yn cymryd y mater hwn o ddifrif. Mae Plaid Cymru wedi galw'n gyson am Gyfraith Lles Anifeiliaid Ewropeaidd gynhwysfawr. Yng Nghymru, bydd Plaid Cymru yn parhau i alw am greu Cofrestr Cam-drin Anifeiliaid i Gymru.

Mae rhywogaethau bywyd gwyllt yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, gyda cholli bioamrywiaeth yn fygythiad i'n hamgylchedd naturiol. Byddwn yn cyfoesi ac yn cyfnerthu deddfwriaeth Gymreig ar fywyd gwyllt, gan greu Deddf Bywyd Gwyllt newydd i Gymru.



Plaid Cymru
Party of Wales



GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Ein gweledigaeth yn y tymor hir yw un o GIG sydd yn wirioneddol yn perthyn i'r genedl gyfan, wedi ei arwain gan gleifion ac yn gweithio yn ddigidol gyda chyn lleied ag sydd modd o fiwrocratiaeth a'r gallu i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau sydd yn hygyrch i bawb ym mhob rhan o Gymru. Bydd cadw aelodaeth o'r UE, gyda'i amryfal gyrff ymchwil ac iechyd a fframwaith cyfreithiol, yn allweddol i wireddu'r weledigaeth hon.

Bydd aros yn yr UE yn gwneud yn siŵr y gellir parhau i gludo meddyginiaethau hanfodol heb wiriadau ac oedi wrth ffiniau, ac y gall GIG Cymru barhau i aros yn rhan o rwydweithiau ymchwil ehangach ar gyfer iechyd, sydd yn sicrhau y daw treialon clinigol a chyllid ymchwil i Gymru. Mae hyn yn cynnwys mynediad at y wybodaeth a ddarperir gan asiantaethau megis y Ganolfan Ewropeaidd dros Atal a Rheoli Clefydau.

Mae staff yr UE yn rhan hanfodol o'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'n gwasanaethau Gofal Iechyd. Yn gyffredinol, mae gan y DG lai o feddygon yn eu gwaith am bob 1,000 o bobl nac unrhyw un o'r gwledydd EU15 eraill, felly mae'n hanfodol y gall staff o'r UE ddal i weithio yn y sector allweddol hwn.

Mewn llywodraeth, bydd Plaid Cymru yn hyfforddi ac yn recriwtio 1000 yn ychwanegol o feddygon a 5000 o nyrsys i GIG Cymru yn y degawd nesaf. Byddwn yn cynyddu nifer y meddygon a nyrsys cynhenid Cymreig trwy fuddsoddi mewn ysgolion a hyfforddiant meddygol, ond bydd yn dal yn bwysig i ni allu denu meddygon a hyfforddwyd yn yr UE, yn enwedig mewn meysydd arbenigol penodol sy'n dioddef prinder.

Mae Plaid Cymru eisiau gwneud yn siŵr fod cymwysterau i weithio ym maes iechyd yn gadarn ac yn cael eu cydnabod ar draws yr UE er mwyn hwyluso gweithwyr iechyd proffesiynol i symud yn rhydd ledled yr UE, a sicrhau ar yr un pryd y gall cleifion a chyflogwyr fod â hyder yn eu gallu. Bydd hyn yn cynnwys isafswm safonau iaith priodol i bob gwlad a sicrhau fod gan bob system iechyd ddatblygiad proffesiynol priodol wedi ei wreiddio mewn llwybrau gyrfa.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r ymgyrch AllTrials am gyhoeddi pob treial clinigol er mwyn sicrhau tryloywder mewn ymchwil feddygol. Byddwn yn cefnogi ymdrechion i gynyddu cadernid trwyddedu meddyginiaethau gan yr UE, ac yr ydym yn cefnogi galwadau am reoleiddio cryfach yn erbyn gwneud honiadau iechyd ffug wrth farchnata cynhyrchion.

## HEDDWCH A DIOGELWCH

Crëwyd yr UE fel prosiect heddwch ac y mae'n dal i gadw heddwch rhwng gwledydd Ewrop. Mae angen i Ewrop bellach fynd ati'n gryfach i ddod o hyd i atebion heddychlon i wrthdaro arfog yn ein cymdogaeth ni a thu hwnt. Mae'n haws, yn rhatach ac yn fwy dyngarol o lawer ymdrin ag achosion gwrthdaro na cheisio ymdrin â'r canlyniadau.

Yr ydym yn galw am roi'r gorau i allforio arfau i unbeniaid a phartïon rhyfelgar. Dylai Ewrop fynd ati i weithio dros ddiarfogi rhyngwladol, gan gynnwys gwahardd arfau niwclear a robotiaid a raglennwyd i ladd. Dylai'r UE arwain y ffordd o ran llofnodi Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear, ac annog pob aelod-wladwriaeth i wneud hynny. Bydd Plaid Cymru yn parhau i wrthwynebu'r Gronfa Amddiffyn Ewropeaidd newydd, gan alw yn hytrach am gyllid i sifiliaid i atal gwrthdaro.

Mae rhyddid rhag trais hefyd yn hawl sylfaenol yn Ewrop. Mae angen i'r UE ac awdurdodau cenedlaethol weithio'n galetach ac yn well gyda'i gilydd i atal a gwrthweithio terfysgaeth. Gall yr UE ddarparu cyllid i frwydro radicaleiddio, a gall rheolau llymach ar arfau a ffrwydron leihau trais sy'n defnyddio drylliau.

Mae gwaith ar y gweill i sefydlu Sefydliad Heddwch Cymreig fydd â'r nod o fod yn sail o wybodaeth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a chreu cymdeithas fwy heddychlon a chynhwysol. Byddai'n dod yn rhan o rwydwaith o sefydliadau heddwch mewn gwledydd ledled y byd.

## TROSEDD A CHYFIAWNDER

Mae cydweithredu rhyngwladol i atal troseddu a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr trosedd yn hanfodol, yn enwedig twyll a masnachu mewn pobl. Rhaid i ni gynnal ein gallu i gymryd rhan yn y warant arestio Ewropeaidd, ein haelodaeth o Europol a'n gallu i gymryd rhan mewn rhannu gwybodaeth trwy aros yn yr UE. Fe'u bwriadwyd i amddiffyn hawliau diffynyddion a phobl fregus ar draws ffiniau, hwyluso cydweithredu a chefnogi prosesau ymarferol i frwydro troseddau ar draws ffiniau a chyflwyno cyfiawnder.

Fel aelod-wladwriaeth o'r UE, mae'r DG yn aelod llawn o Europol, yr asiantaeth i orfodi'r gyfraith ledled Ewrop sydd yn helpu aelod-wladwriaethau yn eu brwydr yn erbyn troseddau a therfysgaeth ryngwladol ddifrifol. Mae Europol yn hanfodol i'n diogelwch cenedlaethol gan ei fod yn cynnig cyfleoedd digymar i atal troseddau difrifol a gwarchod ein dinasyddion.

O atal smyglo nwyddau a phobl i atal gweithredoedd terfysgol, bydd cadw ein haelodaeth lawn o Europol trwy aros yn yr UE yn helpu i sicrhau diogelwch y wlad hon mewn cyfnod o ansicrwydd mawr. Bydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn dal i allu mynd at holl gronfeydd data Europol a gallu rhannu ein gwybodaeth am droseddwyr rhyngwladol a therfysgwyr yn effeithiol.

Mae Plaid Cymru yn pryderu'n arbennig ynghylch parhau i fasnachu mewn pobl, ac yn croesawu'r ffaith fod yr UE wedi cydnabod hyn fel blaenoriaeth. Mae adroddiadau'n awgrymu fod 80% o ddioddefwyr masnachu mewn pobl yn Ewrop yn fenywod a merched sydd yn cael eu defnyddio i gam-fanteisio arnynt yn rhywiol, tra bod dioddefwyr gwryw yn cael eu defnyddio ar gyfer llafur. Mae Plaid Cymru eisiau gweld neilltuo mwy o adnoddau i ymchwilio i'r sawl sy'n masnachu mewn pobl, a'u herlyn. Cred Plaid Cymru y dylai llywodraethau ledled Ewrop gymryd mwy o gamau i atal y drosedd hon rhag digwydd yn y lle cyntaf, yn ogystal â mynd ar ôl achosion o dorri'r gyfraith.

Yr ydym yn cefnogi Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop sydd yn sail i'n system o gyfiawnder. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cyhoeddi siarter hawliau dynol i Gymru i amddiffyn pobl Cymru yn erbyn cefndir o lywodraeth Dorïaidd sy'n benderfynol o danseilio'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Credwn hefyd mai nawr yw'r amser priodol i bwerau plismona a chyfiawnder troseddol gael eu trosglwyddo i Gymru, fel yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel rhan o drosglwyddo'r pwerau hyn byddwn yn creu awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig, gan greu system gyfiawnder sydd yn adlewyrchu anghenion Cymru. Trwy ddatganoli plismona, byddwn yn sicrhau £25 miliwn yn ychwanegol i heddluoedd Cymru, gan sicrhau y gallwn fuddsoddi mewn gwasanaethau heddlu hanfodol, wedi'u gwreiddio yn ein cymunedau a chan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau angenrheidiol i'n cadw'n ddiogel.

Byddwn yn gweithredu'n gadarn i ostwng troseddau, gan ganolbwyntio ar ymyriadau ar lefel gymunedol a byddwn yn gwrthdroi toriadau i gymorth cyfreithiol fel y gall pawb gyrchu system gyfiawnder sy'n rhoi gwrandawiad teg i ddioddefwyr.





GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

## CYDRADDOLDEB

Cred Plaid Cymru mewn cymdeithas deg a chyfiawn lle caiff pawb eu trin yn gyfartal gan fwynhau'r un hawliau, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae Plaid Cymru yn deall, er i gryn gynnydd gael ei wneud, fod menywod ar gyfartaledd yn cael eu talu ar gyfraddau is yr awr na dynion am waith o'r un gwerth a'u bod yn fwy tebygol o fod mewn gwaith rhan-amser neu gael eu tangyflogi. Byddwn yn hyrwyddo annibyniaeth economaidd i fenywod trwy gryfhau deddfwriaeth yr UE ar gydraddoldeb, gan warantu hawliau unigolion i warchodaeth gymdeithasol a threthiant, gan roi diwedd ar fylchau tâl a phensiwn a darparu gofal cymdeithasol, absenoldeb rhieni a gofal plant.

Bydd Plaid Cymru yn mynd i'r afael ag effaith toriadau llymder ar gyllid am wasanaethau arbenigol i fenywod sydd wedi dioddef trais neu gamdriniaeth yn y cartref a sicrhau parhad cefnogaeth i grwpiau bregus neu'r sawl sydd ar gyrion cymdeithas.


Mae ein hymgeiswyr wedi llofnodi addewid Me Too Senedd Ewrop, sy'n ymrwymo i gefnogi gweithredu'r cynnig ar wrthweithio aflonyddu a chamdriniaeth rywiol yn yr UE, sefydlu Cynllun Gweithredu Rhywedd cryf a chyfarwyddeb yr UE ar wrthweithio trais yn erbyn menywod.

Yr ydym yn credu bod angen clywed a chadarnhau lleisiau a phrofiadau LHDTQI+. Yn Senedd Ewrop, grŵp gwleidyddol y Gwyrddion/CRE oedd yr unig rai i roi cefnogaeth lawn i hawliau LHDTQI+ ym mhob pleidlais. Hwy oedd yn arwain y ffordd yn Senedd Ewrop ar fabwysiadu mesurau i wahardd therapïau trosi LHDTQI+ a sicrhau rhyddid symud i gyplau o'r un rhyw.

Mae angen i gyfreithiau yn erbyn troseddau casineb ac iaith gasineb fod yn gyson ac ymdrin â homoffobia a thrawsffobia yn holl aelod-wladwriaethau yr UE. Ar hyn o bryd yn yr UE, gwaherddir camwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol ym maes cyflogaeth yn unig. Rydym eisiau gweld ehangu hyn i feysydd eraill megis gofal iechyd, addysg, gwarchodaeth gymdeithasol a mynediad at nwyddau a gwasanaethau.

Dylai pawb allu teimlo'n ddiogel a derbyn parch yn eu cymunedau. Yng Nghymru, bydd Plaid Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i sicrhau fod pob trosedd casineb, gan gynnwys trosedd casineb homoffobaidd, hiliol a gwrth-anabledd, yn cael eu trin o ddifrif gan heddluoedd Cymru ac yr ymchwilir yn briodol iddynt fel y gall dioddefwyr deimlo'n hyderus a saff wrth adrodd am ddigwyddiadau.

### Sut pleidleisiodd Grwpiau Gwleidyddol Ewropeaidd ar hawliau LHDTI yn 2014 - 2019?



Plaid Cymru
Party of Wales

## CYMRU A'R BYD

Bydd Plaid Cymru yn ymdrechu i wneud Cymru yn gyrchfan i'w dewis gan dwristiaid a busnesau ledled y byd trwy gysylltiadau economaidd a diwylliannol agosach gyda'n partneriaid a'n cynghreiriaid traddodiadol.

Mewn llywodraeth, bydd Plaid Cymru yn datblygu polisi rhyngwladol i Gymru sydd yn adfer ein sefyllfa fel cenedl fasnachu o bwys. Byddwn yn cyflwyno Asiantaeth Cymru Fyd-eang, fydd yn gyfrifol am ddenu busnesau newydd, doniau a diwydiant o bob cwr o'r byd, ond hefyd am roi Cymru ar fap y byd i'n hallforion.

Byddwn hefyd yn sefydlu, fel yn Iwerddon, Asiantaeth Fenter Genedlaethol ar wahân, fydd yn gyfrifol am ddatblygu yng Nghymru. Un o gyfrifoldebau penodol y corff newydd hwn fydd sicrhau buddosddiad cyfartal a thwf cynaliadwy ledled Cymru.

Bydd Plaid Cymru yn parhau i gefnogi cenadaethau masnach strategol ledled y byd i feithrin ymwybyddiaeth o Gymru mewn tiriogaethau newydd a manteisio ar gyfleoedd newydd a rydd hyn i greu swyddi. Byddwn yn cyhoeddi cyfres o egwyddorion trafod masnach, gan gynnwys rhai ar gyfer safonau llafur ac amgylcheddol, ac amddiffyn hawliau lleiafrifoedd diwylliannol ac ieithyddol.

Mae Plaid Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth ledled Cymru fel cyflogwr ac i ddenu buddsoddiad i'r wlad. Yr ydym wedi hyrwyddo Cymru ar bob achlysur yn Senedd Ewrop gydag arddangosfeydd a seminarau ac y mae Jill Evans ASE wedi hwyluso creu rhwydwaith twristiaeth ddiwylliannol Ewropeaidd sy'n dwyn i mewn genhedloedd llai yn yr UE.

Yr ydym eisiau hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ymwelwyr o'r ansawdd uchaf a chynaliadwy, gyda gweithgareddau a phrofiadau seiliedig ar ein hadnoddau naturiol, ein cynnyrch, ein harfordir a'n tirwedd unigryw a'n hiaith, diwylliant a threftadaeth. Ar hyn o bryd, mae'r diwydiant twristiaeth yn cael ei dagu gan drethi annheg a Llywodraeth sy'n methu â hyrwyddo Cymru fel cyrchfan dwristiaeth fyd-eang. Mae Plaid Cymru eisiau gweld TAW ar dwristiaeth wedi ei dorri i roi Cymru ar y blaen yn y farchnad dwristiaeth ryngwladol a lansio blwyddyn Dathlu Cymru i hybu twristiaeth ar hyd a lled y wlad.

## DIWYLLIANT A'R CYFRYNGAU

Fel aelod o Bwyllgor Diwylliant ac Addysg Senedd Ewrop, mae Jill Evans ASE wedi manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo ac amddiffyn buddiannau diwylliant Cymru yn yr UE, gan weithio'n agos gyda mudiadau diwylliannol Cymreig.

Bydd Plaid Cymru yn gosod celfyddyd, diwylliant ac iaith ynghyd â chwaraeon - sydd oll yn rhannau pwysig o'n traddodiad cymdeithasol a'n ffordd o fyw - wrth graidd ein holl bolisïau, o gyllid llywodraeth leol, trwodd at iechyd ac addysg a'n polisïau Ewropeaidd. Bydd creadigrwydd, arloesedd ac ymdeimlad o le yn hanfodol i lwyddiant unrhyw economi yn yr 21ain ganrif, ac fe fydd hefyd yn dwyn elw cymdeithasol sylweddol o ran lles a chydlynu cymunedau.

Yng Nghymru, byddwn yn cadw mynediad am ddim i amgueddfeydd, yn creu Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol i Gymru ac yn galluogi Amgueddfa Genedlaethol Cymru i greu Oriel Gelf Genedlaethol unswydd.

Yr ydym yn cydnabod fod gan Gymru lai o wyliau banc na'r un genedl arall, bron, yn yr UE. Bydd Plaid Cymru yn gwneud Mawrth 1af yn ŵyl banc Gŵyl Dewi genedlaethol yng Nghymru.

Mae Plaid Cymru am weld datganoli darlledu fel y gallwn greu maes chwarae gwastad gyda holl genhedloedd eraill y DG a rhoi i Gymru y grym i benderfynu ar ei pholisi cyfryngau a darlledu ei hun. Mewn llywodraeth, byddwn yn creu cyfryngau Cymreig go-iawn fydd yn cynrychioli pobl Cymru a'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy.



GWNEWCH I
**GYMRU** GYFRIF





## TRAFNIDIAETH

Mae blynyddoedd o danfuddsoddi enbyd wedi golygu bod ffyrdd, rheilffyrdd a bysus Cymru yn orlawn ac yn dirywio. Nid yw ein system drafnidiaeth yn addas at y diben ac esgeuluswyd ein cysylltiadau â gweddill y byd. Mae creu system drafnidiaeth genedlaethol addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn hanfodol i gyrraedd ein hamcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach fel cenedl. Mae angen cysylltu ein cymunedau a'n cenedl.

Fel aelod o Bwyllgor Trafnidiaeth a Thwristiaeth Senedd Ewrop, mae Jill wedi ymgyrchu dros drafnidiaeth gynaliadwy ac i Gymru gael ei chynnwys yn y rhwydweithiau trafnidiaeth TEN-T allweddol.

Mae Plaid Cymru eisiau gweld system drafnidiaeth wirioneddol ledled Cymru sydd yn cysylltu'r genedl ac yn cysylltu Cymru â'r byd. Mewn llywodraeth, fe fyddwn yn rhoi bod i'r rhaglen fuddsoddi fwyaf ers datganoli ym mhob rhan o Gymru i wella ein system gludiant cyhoeddus a'n rhwydweithiau ffyrdd. Bydd mynediad at gyllid yr UE yn allweddol er mwyn cyflwyno hyn. Fel rhan o'n Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, byddwn ni'n:

- Cyflwyno gwasanaeth tocynnu Cerdyn Clyfar Cenedlaethol integredig ledled Cymru er mwyn hwyluso pethau i deithwyr, a sicrhau gwell integreiddio rhwng bysus a rheilffyrdd.
- Cyflwyno mesurau i wneud tocynnau rheilffyrdd yn fwy fforddiadwy, ceisio sicrhau trenau newydd i'n stoc, nodi mannau ar gyfer gorsafoedd newydd ar hyd a lled y rhwydwaith a byddwn hefyd am geisio ail-agor rheilffyrdd ar hyd a lled Cymru i greu cysylltiadau newydd rhwng cymunedau.
- Helpu i gyrraedd ein nodau amgylcheddol trwy wneud cludiant cyhoeddus yn fwy fforddiadwy a deniadol, cyflwyno mwy o bwyntiau gwefrio trydanol cyhoeddus trwy Gymru benbaladr, cychwyn y trosiant tuag at fflyd hollol drydanol o gerbydau'r sector cyhoeddus a chefnogi teithio llesol.
- Buddsoddi mewn atebion trafnidiaeth sy'n gweithio i'r Gymru wledig a'i heriau demograffig a daearyddol.
- Datblygu strategaeth porthladdoedd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfleoedd gyda nwyddau a dosbarthu, twristiaeth mordeithiau a datblygu cysylltiedig â deunyddiau adnewyddol.
- Cefnogi systemau trafnidiaeth arloesol ac integredig trwy Gymru gyfan. Dylid ymestyn yr astudiaeth dichonoldeb i ail-agor y lein o Gaerfyrddin i Aberystwyth i gynnwys y llwybr cyfan i'r gogledd tua Bangor. Dylai ail-agor cyswllt rheilffordd i Langefni, ac ymlaen i Amlwch fod yn uchelgais bellach i helpu i greu cyfleoedd yng ngogledd-ddwyrain Ynys Môn.
- Gwneud Maes Awyr Caerdydd yn llwyddiant, a dod ag Ewrop a'r byd i Gymru, er mwyn cefnogi ein marchnadoedd allforio a thwristiaeth. Byddwn yn manteisio ar yr holl gefnogaeth y gellir ei roi gan yr UE i helpu yn hyn o beth a cheisio datganoli Treth Teithwyr Awyr i roi min cystadleuol i'r maes awyr.
- Ail-reoleiddio bysus, gwarchod tocynnau bws am ddim i'r rhai sy'n gymwys i'w cael ar hyn o bryd, ehangu'r cynllun Bwcabus ar alw mewn rhannau o'r Gymru wledig lle nad yw gwasanaeth bws rheolaidd yn hyfyw ac ehangu gwasanaeth Traws Cymru fel gwasanaeth bws cenedlaethol sy'n gwasanaethu prif drefi ledled y wlad.
- Byddwn yn cymryd agwedd Cymru gyfan at ein buddsoddiad yn rhwydwaith ffyrdd Cymru ac at ddiogelwch y ffyrdd, gan ganolbwyntio ar wella cysylltiadau rhwng gogledd a de yn ychwanegol at y buddsoddiad sydd ei angen yn y prif goridorau dwyrain-gorllewin. Byddwn yn gwrthwynebu ffordd liniaru'r M4, gan fuddsoddi yn hytrach mewn dewisiadau cludiant cyhoeddus eraill.

## TAI

Yng Nghymru, mae ein stoc tai wedi dyddio ac yn aneffeithiol. Bydd ein ASE yn galw am gronfa gan yr UE ar gyfer tai cymdeithasol, fforddiadwy ac ynni-effeithlon.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn defnyddio'r gronfa hon, yn ogystal â blaenoriaethu ffynonellau buddsoddi eraill, i godi 20,000 o gartrefi newydd yn y sector cymdeithasol dros dymor 5 mlynedd llywodraeth, i ateb yr anghenion tai lleol a fforddiadwy ar hyd a lled Cymru.

Yng Nghymru, sydd â stoc tai hŷn a mwy traddodiadol, mae adnewyddu tai yn bwysig er mwyn lleihau biliau tanwydd teuluoedd. Dyna pam y llwyddodd Plaid Cymru i lobïo'n llwyddiannus am hawl llywodraethau'r UE i dorri TAW ar ôl-ffitio tai. Er mwyn sicrhau tai o safon i bawb, byddwn hefyd yn cyflwyno rhaglen o effeithiolrwydd ynni cartrefi gwerth £3 biliwn a fydd yn symbylu creu swyddi, mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac yn lleihau allyriadau carbon.

Bydd Plaid Cymru yn cymryd camau effeithiol i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, gan ddefnyddio camau ataliol i gadw pobl yn eu cartrefi a gwarchod pobl rhag cael eu troi allan lle bo modd.

Cred Plaid Cymru mewn model cartrefi'n gyntaf i fynd i'r afael â digartrefedd, ac yr ydym yn cefnogi'r cynllun a gynhyrchwyd gan Crisis i ddiweddu digartrefedd. Byddwn yn mabwysiadu eu hargymhellion mewn llywodraeth; rhoi terfyn ar angen blaenoriaeth, gwneud i ffwrdd â bwriadusrwydd, ac ariannu gwaith atal yn briodol.

Yr ydym yn cynnig y dylid annog ffynonellau eraill o gyflenwadau tai trwy ganoli mwy ar ddwyn tai gwag yn ôl i ddefnydd, adeiladu tai Gofal Cymdeithasol ar y dull Llychlynnaidd, ac annog datblygiadau a hunan-adeiladu llai ac ecogyfeillgar.

Byddwn yn cryfhau llais cymunedau lleol yn y system gynllunio fel bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy a bod buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yn mynd gyda hwy. Credwn nad yw llymder yn gydnaws â'r awydd am fwy o dai a democratiaeth leol.

Byddwn yn cryfhau hawliau defnyddwyr sy'n prynu tai newydd, a newid y deddfau cynllunio i atal gwarth stadau sydd heb eu gorffen, ffyrdd heb eu mabwysiadu, ac oedi hir rhwng cyfnodau datblygu.


## DIWYGIO'R UE

Rydym eisiau aros yn yr UE, a'i diwygio o'r tu mewn gyda holl fanteision aelodaeth. Rydym eisiau llunio Ewrop lle cymerir pob penderfyniad yn agored a lle mae lobïo yn cael ei reoli'n iawn. Byddwn yn gweithio dros hawliau dynol a chyfiawnder gartref ac yn rhyngwladol - camau sydd yn cael eu harwain orau gan yr UE ar lwyfan y byd.

Mae'n hanfodol fod holl bobl Ewrop yn rhan o wneud penderfyniadau'r UE. Er mwyn sicrhau hyn, rhaid i'r UE ddiwygio ei democratiaeth gyfranogol. Yn benodol, rhaid i Senedd Ewrop fod â'r grym i gychwyn deddfwriaeth.

Dylai'r holl genhedloedd a'r rhanbarthau hanesyddol gael eu cynrychioli mewn ail siambr i'r Senedd a fyddai yn gyd-ddeddfwr ac yn cymryd lle Pwyllgor y Rhanbarthau presennol.

Mae Plaid Cymru eisiau gweld mwy o dryloywder yn y Cyngor ac ethol llywydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ddemocrataidd gan Senedd Ewrop.



GWNEWCH I
**GYMRU** GYFRIF

Plaid Cymru
Party of Wales



GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

## YR IAITH GYMRAEG

Mae Plaid Cymru eisiau Cymru wirioneddol ddwyieithog lle gall dinasyddion ddewis pa iaith i'w defnyddio yn eu bywydau bob dydd. I wneud hynny, rhaid cynyddu yn sylweddol nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y wlad a sicrhau fod gan siaradwyr gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith lle bynnag y dewisant wneud hynny.

Rydym eisiau annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ac mewn llywodraeth byddwn yn defnyddio contractau caffael a phrentisiaethau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r iaith Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac y mae'n bwysig fod pawb yn cael cyfle i ddod yn ddwyieithog. Byddwn yn peri bod mwy o addysg Gymraeg ar gael o oed meithrin hyd at addysg bellach ac uwch ac i addysg oedolion.

Mae statws yr iaith Gymraeg hefyd yn bwysig. Mewn llywodraeth, deddfodd Plaid Cymru i roi statws swyddogol i'r Gymraeg, gan greu hawliau i unigolion dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Plaid Cymru yn pwyso am well statws i'r Gymraeg ar lefel y DG ac Ewrop, gan gynnwys caniatáu ei defnyddio yng nghyfarfodydd yr Uwch-Bwyllgor Cymreig a'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn San Steffan a dynodi'r Gymraeg yn un o ieithoedd swyddogol yr UE.

Ar hyn o bryd, y mae 24 iaith Ewropeaidd swyddogol, ac y mae gan y Gymraeg statws cyd-swyddogol, diolch i waith Plaid Cymru. Ond yr ydym ni am fynd ymhellach. Rydym am gydraddoldeb i'n hiaith gydag ieithoedd swyddogol eraill yr UE. Nid gweithred symbolaidd yn unig mo hyn.

Yng Nghymru, mae bron i 600,000 o siaradwyr Cymraeg, a llawer ohonynt yn bobl ifanc, ond nid yw eu sgiliau iaith yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd. I weithio yn sefydliadau Ewrop, mae'n rhaid meddu ar ddwy o ieithoedd swyddogol yr UE. Byddai gwneud y Gymraeg yn un o ieithoedd swyddogol yr UE yn rhoi cydraddoldeb i ni ac yn rhoi cyfleoedd am swyddi yn rhyngwladol i siaradwyr Cymraeg ac yn rhoi i Gymru yr un manteision economaidd a'r rhai a gafwyd pan ddaeth y Wyddeleg yn un o ieithoedd swyddogol yr UE yn 2007.

Mae'n hanfodol hefyd i siaradwyr Cymraeg allu cyrchu a defnyddio'r byd digidol yn Gymraeg. Ledled Ewrop, mae llawer o ieithoedd lleiafrifol yn cael eu heithrio o gymdeithas sy'n gynyddol ddigidol. Yn Senedd Ewrop, ymgyrchodd Jill Evans ASE dros gydraddoldeb ieithyddol a sicrhau ymrwymiad mwyafrif llethol o ASE i ymdrin â phroblem rhwystrau ieithyddol digidol trwy ei hadroddiad seneddol ar 'Gydraddoldeb ieithyddol yn yr oes ddigidol'. Rhoes hyn gryn hwb i'r ymgyrch dros warchodaeth ddigidol i ieithoedd gyda llai o siaradwyr.

Mae gwaith arloesol eisoes yn digwydd yng Nghymru gyda phrosiectau cyffrous yn datblygu galluedd digidol i'r Gymraeg, fel ym Mhrifysgol Bangor lle maent yn datblygu'r Porthol Terminoleg Cymraeg Cenedlaethol a Lleisiwr sydd yn trosi testun i leferydd.
Mae'n hanfodol fod yr UE yn deddfu i sicrhau darpariaeth ddigidol i ieithoedd lleiafrifol. Bydd ein ASE yn parhau i alw ar yr UE i wella'r fframweithiau sefydliadol ar gyfer polisiau technoleg iaith, creu polisiau ymchwil newydd i gynyddu'r defnydd o dechnoleg iaith yn Ewrop, a defnyddio polisiau addysg i sicrhau dyfodol cydraddoldeb ieithyddol yn yr oes ddigidol. Byddwn hefyd yn galw ar yr UE i gynyddu'r gefnogaeth i gwmnïau preifat a chyrff cyhoeddus i wneud gwell defnydd o dechnolegau iaith.

## CYMRU FEL AELOD-WLADWRIAETH ANNIBYNNOL

Cred Plaid Cymru y dylai Cymru fod yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn ein gwneud yn aelod pleidleisio llawn gyda'r hawl i osod feto lle mae'r Cytundebau Ewropeaidd yn caniatáu fel bod gan Lywodraeth Cymru lais ar y prif fwrdd.

Buasem yn gallu cymryd rhan lawn yn yr UE fel aelod-wladwriaeth i ganiatáu i ni weithio er lles Cymru, yn hytrach na chael ein cynrychioli gan Lywodraeth y DG nad yw yn gweithio dros ein buddiannau.

Petai Cymru'n dod yn aelod annibynnol o'r Undeb Ewropeaidd, buasem yn elwa wedyn o ethol mwy o Aelodau o Senedd Ewrop a chael ein Comisiynydd Ewropeaidd ein hunain. Byddai Cymru yn ethol 9 Aelod o Senedd Ewrop yn hytrach na'r 4 sydd gennym ar hyn o bryd – fyddai'n mwy na dyblu ein cynrychiolaeth.

Dan y drefn bresennol, cynrychiolir Cymru ar lefel yr UE gan bedwar Aelod o Senedd Ewrop, dau aelod o Ecosoc (Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop) a chan bedwar aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau (2 aelod llawn, 2 aelod neilliol).

Gall Gweinidogion Cymru fynychu cyfarfodydd fel rhan o gynrychiolaeth y DG, ond siarad ar ran Llywodraeth y DG, nid Cymru, a wnânt.

Cred Plaid Cymru y dylid cael cynrychiolaeth Gymreig awtomatig ym mhenderfyniadau Cyngor Ewrop pan fyddant yn cael effaith ar Gymru. Dylai Prif Weinidog Cymru fod â'r hawl i fynychu holl gyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion gyda statws sylwedydd a hawliau siarad.

Credwn hefyd y dylai bwrw pleidlais y DG fod trwy gytundeb y gweinidogion perthnasol o'r pedair gweinyddiaeth, a lle nad oes cytundeb, y dylid crybwyll hyn.

Mae gan y DG un Comisiynydd Ewropeaidd a benodir gan Lywodraeth DG.

Cynigiodd Plaid Cymru gomisiynydd 'cylchdroi' o'r DG, a ddetholir yn ei th/dro gan y gwahanol Lywodraethau yn y DG am y mandad pum-mlynedd, sy'n golygu y câi Cymru ddewis ei chomisiynydd ei hun pan ddaw ein tro ni.

Dan y trefniadau presennol, cred Plaid Cymru y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, gymryd rhan yn newis Comisiynydd Ewropeaidd y DG a chael pŵer feto ymgeiswyr anaddas a'r pŵer i enwebu ymgeiswyr am y broses.

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru adolygu cynrychiolaeth dramor Cymru, gan ddysgu o'r arferion gorau. Dylid canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth sydd yn hyrwyddo buddiannau cenedlaethol Cymru, gan ddarparu cynrychiolaeth wleidyddol o Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol a chenhadaeth fasnachol i hyrwyddo Cymru.



Plaid Cymru
Party of Wales

GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

MANIFFESTO ETHOLIAD
EWROPEAIDD
2019

Plaid Cymru
Party of Wales

GWNEWCH I
**GYMRU** GYFRIF

Plaid Cymru
Party of Wales

Hyrwyddwyd a chyhoeddwyd gan / Promoted & Published by Gareth Clubb, ar ran/on behalf of Jill Evans, Carmen Smith, Patrick McGuinness & Ioan Bellin, all of Plaid Cymru The Party of Wales, Ty Gwynfor, Anson Court, Cardiff, CF10 4AL. Argraffwyd gan / Printed by Low Cost Printing, Pentrepoeth Road, Abertawe, SA6 6AA.